



DATGANIAD I'R WASG / PRESS RELEASE

Yr Athro Gwyn Thomas

Platfform addysgiadol newydd yw'r wefan sy'n seiliedig ar waith un o lenorion enwocaf llenyddiaeth Cymru – Yr Athro Gwyn Thomas.

Mae'r wefan yn brosiect ar y cyd rhwng cwmni Telesgop a chyfranwyr amrywiol, ac wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bosib ei weld trwy wefan Hwb ac ar www.gwynthomas.cymru.

Mae'n cynnwys:

- cyfoeth o adnoddau ar gyfer athrawon a disgyblion – Cyfnod Allweddol 3, 4 a 5;
- gweithgareddau ysgrifenedig a rhyngweithiol ar destunau penodol Gwyn Thomas;
- llinell amser rhyngweithiol yn seiliedig ar fywyd Gwyn Thomas, yn ogystal â'r hyn ddigwyddodd yng Nghymru, Prydain a'r Byd rhwng 1915-2016;
- ffilm fer sy'n cael ei chyflwyno gan Tudur Dylan Jones, a chlipiau gan Mrs Jennifer Thomas, gwraig Gwyn Thomas, a Geraint Vaughan Jones ffrind ysgol iddo;
- galeri o luniau

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag elin.mair@telesgop.cymru.

A new and exciting educational platform based on the work of one of Wales' most famous literary figures – Gwyn Thomas.

A variety of Welsh language resources for teachers and pupils - Key Stage 3, 4 and 5.

